

	<p>Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu (GCGAD)</p> <p>Cofnodion y 3ydd cyfarfod</p> <p>10 Medi 2019</p>	
<p>Yn bresennol – Aelodau</p> <p>Sophie Hinksman - Cydgadeirydd</p> <p>Adrian Burke - Cartrefi Cymunedol Cymru</p> <p>Rebecca Cicero - Gofal Cymdeithasol Cymru</p> <p>Wayne Crocker - Mencap Cymru</p> <p>Lynne Evans - Pobl yn Gyntaf Cymru</p> <p>Julian Hallett - Cymdeithas Syndrom Down</p> <p>Edwin Jones - Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol</p> <p>Dermot McChrystal - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru</p> <p>Michelle Martin - Fforwm Gofal Cymru</p> <p>Emma Mulinder - Penaethiaid Gwasanaeth Oedolion Cymru Gyfan</p> <p>Ruth Northway - Prifysgol De Morgannwg</p> <p>Joe Powell - Pobl yn Gyntaf Cymru</p> <p>Zoe Richards - Anabledd Dysgu Cymru</p> <p>Hayley Tarrant - Pwyllgor Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru</p> <p>Oliver Townsend - Cymorth Cymru</p> <p>Michelle Williams - Pobl yn Gyntaf Cymru</p> <p>Sharon Williams - Iechyd Cyhoeddus Cymru</p> <p>Eraill</p> <p>Tracey Drew - yn cynorthwyo Sophie</p> <p>Dawn Price - yn cynorthwyo Lynne</p> <p>Catherine Thornton - yn cynorthwyo Michelle</p> <p>Jo Griffin - yn mynychu ar ran</p>	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Aelodau</p> <p>Suzanne Clifton</p> <p>Christine Griffiths</p> <p>Jane Rodgers</p> <p>Jason O'Brien</p> <p>Pauline Young</p> <p>Emma Curtis</p> <p>Swyddog</p> <p>Hazel Powell</p>	

<p>Kate Young</p> <p>Kelly Stuart</p> <p>Swyddogion</p> <p>Karen Eveleigh: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau</p> <p>Andrew Stevenson: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau</p> <p>Natalie Hughes-Owen: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau</p> <p>Alyson Collins: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio</p> <p>Swyddogion a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau ar yr agenda</p> <p>Rhidian Jones a Dan Jones – Y Gyfarwyddiaeth Dai, yn bresennol ar gyfer eitem 3 ar yr agenda (Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig).</p> <p>Shelly Davies a Sam Bufton – Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol ar gyfer eitem 3 ar yr agenda (Rhaglen Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig).</p>	<p>Christine Griffiths</p> <p>- yn mynychu ar ran</p> <p>Pauline Young</p> <p>- Pobl yn Gyntaf Cymru</p>
--	--

1.	Croeso, ymddiheuriadau, cyflwyniadau	
	<p>1.1 Croesawodd Sophie bawb i'r cyfarfod, gan wahodd pawb i'w cyflwyno eu hunain a dweud pwy yr oeddynt yn ei gynrychioli. Nodwyd yr ymddiheuriadau.</p> <p>1.2 Darllenodd Sophie y rheolau sylfaenol ar gyfer cyfarfodydd GCGAD. Cytunodd pawb i gadw at y rheolau hyn.</p>	
2.	Cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r camau sydd heb eu cymryd	

	<p>Ystyriwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â'r log gweithredu.</p> <p>Cofnodion</p> <p>2.1 Arferion cyfyngol – Aeth Dermot ati i atgoffa'r aelodau ei fod yn fodlon codi unrhyw fater yn ymwneud â hyfforddiant ymyrryd ar gyfer athrawon gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Dywedodd Edwin fod Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol wedi tynnu sylw at rai materion yn eu cynigion i gryfhau adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau yn dilyn yr hyn a ddatgelodd Panorama am Whorlton Hall.</p> <p>2.2 Pontio – dywedwyd wrth yr aelodau fod eu barn ynglŷn â'r term 'trosglwyddo' wedi ei rhannu gyda'r Tîm Iechyd Plant, sydd bellach yn defnyddio 'pontio/trosglwyddo' fel teitl <u>dros dro</u> ar gyfer eu gwaith. Nid oedd rhai o'r aelodau wedi eu hargyhoeddi gan y term newydd, ond roeddynt yn derbyn ei ddefnydd fel teitl dros dro.</p> <p>2.3 Whorlton Hall – Dywedodd Oliver ei fod yn bryderus gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad mewn ymateb i raglen Panorama: 'Undercover Hospital Abuse'. Dywedodd Edwin ei fod wedi cytuno yn y cyfarfod ym mis Mehefin i weithio gyda Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol i adolygu adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau yng ngoleuni sgandal Whorlton Hall – eitem 4 ar yr agenda. Dywedodd Karen fod Prif Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r holl leoliadau arbenigol ar gyfer plant ac oedolion yng Nghymru a Lloegr – eitem 5 ar yr agenda.</p>	
--	---	--

Camau Gweithredu	<p>Cofnodion</p> <p>Arferion Cyfyngol – tynnu sylw at gamau gweithredu penodol yn adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau a'u hanfon at Dermot.</p>	Karen
	<p>Log Gweithredu</p> <p>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – Drafftio a dosbarthu papur yn sôn am y sylfaen dystiolaeth sy'n ategu ymyriadau therapiwtig fel Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Cytunodd Oliver i ddrafftio'r papur.</p>	Oliver
	<p>Ymchwil a Gwerthuso – Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau yng nghyfarfod mis Rhagfyr.</p>	Karen/Ruth
	<p>Log Gweithredu – ei ddosbarthu gyda'r cofnodion.</p>	Alyson
3.	Y Gronfa Gofal Integredig – Cyfalaf a Refeniw.	
	<p>3.1 Dosbarthwyd papur i'r aelodau cyn y cyfarfod yn sôn am Raglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, a chyflwynwyd a dosbarthwyd papur ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Siaradodd Rhidian Jones a Dan Jones am y modd mae'r arian cyfalaf yn cael ei ddefnyddio i adeiladu llety newydd; ailwampio neu addasu adeiladau mwy; a darparu cymhorthion ac addasiadau. Dywedodd yr aelodau eu bod yn falch o weld pwyslais ar ddarparu llety byw â chymorth ac ar anfon pobl ag anabledd dysgu yn ôl i'w hardaloedd cartref. Gofynnodd Oliver pwy sy'n gyfrifol am yr adeiladau, yn enwedig ar ôl iddynt gael eu cwblhau. Dywedwyd mai gyda chomisiynwyr y gwasanaeth y bydd y cyfrifoldeb yn gorwedd yn y pen draw.</p> <p>Diolchodd Sophie i Rhidian a Dan am eu cyflwyniad.</p> <p>3.2 Dosbarthwyd papur i'r aelodau cyn y cyfarfod yn sôn am Raglen Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig, a chyflwynwyd a dosbarthwyd papur pellach yn ystod y cyfarfod. Cafodd y papur olaf ei gasglu'n ôl gan ei fod ar ffurf ddrafft, a bydd fersiwn derfynol yn cael ei dosbarthu i'r aelodau cyn gynted â phosibl. Rhoddodd Shelley Davies drosolwg o Raglen Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig a dywedodd fod buddsoddiad refeniw dan y cynllun yn £89m yn 2018-19 ac yn £124.9m yn 2019-20. Dywedodd fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal arolwg o Raglen Refeniw'r Gronfa Gofal</p>	

	<p>Integredig ac y bydd Adroddiad Blynyddol cyntaf y Gronfa yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr Hydref. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys diffiniadau a mwy o fanylion am y gwahanol fathau o brosiectau.</p> <p>Diolchodd Sophie i Shelley a Sam am eu cyflwyniad.</p>	
Camau Gweithredu	<p>Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig – e-bostio sylwadau neu ymholiadau'n ymwneud â Rhaglen Gyfalaf y Gronfa at Alyson.</p>	Aelodau
	<p>Rhaglen Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig – e-bostio sylwadau neu ymholiadau'n ymwneud â Rhaglen Refeniw'r Gronfa at Alyson.</p>	Aelodau
	<p>Adroddiad Data Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig – ei ddsbarthu i'r aelodau pan fydd ar gael.</p>	Alyson
	<p>Adroddiad Blynyddol Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig – ei ddsbarthu i'r aelodau pan fydd ar gael.</p>	Alyson
4.	<p>Cryfhau Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau yng ngoleuni Whorlton Hall</p>	
	<p>4.1 Fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Mehefin GCGAD, bu Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol yn ystyried adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau, gan ychwanegu sylwadau yng ngoleuni sgandal Whorlton Hall. Cafodd fersiwn ddiweddaraf yr adroddiad ei dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cyflwynodd Edwin uchafbwyntiau'r adroddiad hwn gerbron y cyfarfod, ynghyd â'r camau gweithredu cyffredinol allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn dilyn sgandal blaenorol Winterbourne View, cafodd pentwr o ganllawiau arfer da eu datblygu ar draws y DU. Yr hyn yr oedd angen ei gryfhau, fodd bynnag, oedd y ffordd y cydymffurfir â'r canllawiau a'r arferion da hyn; cynnwys mwy ar arbenigwyr yn ôl profiad (yn cynnwys unigolion ag anabledd dysgu eu hunain) wrth ddatblygu gwasanaethau; a chael proses ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o broblemau posibl, er mwyn eu rhwystro rhag datblygu'n bryderon mawr. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • dylid archwilio'r cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr adroddiad blaenoriaethau a luniwyd gan Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol yn 2015 yn dilyn sgandal Winterbourne View. • Rhaid cael prosesau diogelu cliriach a mwy tryloyw. Nid yw rhannu gwybodaeth am staff problemus yn cael ei wneud yn ddigonol. Awgrymwyd y dylid defnyddio'r term 'codi pryderon' yn hytrach na 'chwythu'r chwiban'. <p>4.3 Trafododd yr aelodau nifer o eitemau a oedd yn deillio o'r adroddiad:</p> <p>Argymhelliad 9 – na all pobl sy'n cael Gofal Iechyd Parhaus gael gafael ar daliadau uniongyrchol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Argymhelliad 11 – trafodwyd yr angen i'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol gael llwybr gyrfa gyda chyfle i gamu ymlaen a dysgu, ynghyd â chofrestru gweithwyr gofal. Cytunodd yr aelodau fod cofrestru gweithwyr gofal yn beth da, pan fo angen gwneud hynny, ac y dylai arwain at weithlu o ansawdd gwell. Ond ni fyddai hyn yn newid y ffaith fod gweithwyr gofal yn cael cyflogau gwael a bod y trosiant yn uchel; ac nad yw'r swydd yn un sy'n cael ei hystyried yn swydd dda. Roedd Kate yn bryderus y gallai cofrestru'r holl staff gofal, yn cynnwys cynorthwyyr personol, rwystro pobl rhag mynd yn weithwyr gofal, yn enwedig teuluoedd a chyfeillion. Tynnodd Rebecca sylw'r aelodau at strategaeth gweithlu hirdymor Gofal Cymdeithasol Cymru – roedd ymgynghoriad ynglŷn â'r strategaeth hon yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. A chan fod yr wythnos sy'n cychwyn ar 9 Medi yn Wythnos Gofal, gwahoddodd Rebecca yr aelodau i anfon straeon 'newyddion da' ati. • Argymhellion 6 a 7 – yr angen i gomisiynwyr ddewis lleoliadau eu cleientiaid, ymweld â nhw, ailymweld â nhw a'u hadolygu, yn unol â chanllawiau comisiynu'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. • Argymhelliad 24 – trafodwyd beth oedd y term 'nam gwybyddol' yn ei olygu. Dywedodd Karen fod adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r term hwn a'i fod yn cwmpasu amrywiaeth o gyflyrau, nid anabledau dysgu'n unig. 	
--	---	--

	<p>Cadarnhaodd y Grŵp yr adroddiad gyda'r sylwadau ychwanegol gan Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol a'r farn ychwanegol a fynegwyd yn ystod y cyfarfod.</p> <p>Dywedodd Karen y bydd yn ceisio barn gan gydweithwyr polisi priodol a rhanddeiliaid ehangach yn awr, yn enwedig yn y GIG, er mwyn gallu llunio cyngor ar gyfer y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac ymateb ffurfiol dilynol i GCGAD ar y cynigion. Fel rhan o'r gwaith hwn, dywedodd y gallai'r cynigion gael eu hymgorffori yn Anabled Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau ac yn y cynllun gweithredu a fydd yn cael ei ddatblygu er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol o leoliadau arbenigol yng Nghymru a Lloegr (eitem 5 ar yr agenda). Awgrymodd Karen y byddai'n hysbysu'r aelodau 'y tu allan i'r pwyllgor', gan roi diweddariad ffurfiol yng nghyfarfod mis Rhagfyr GCGAD.</p>	
Camau Gweithredu	<p>Dogfen ymgynghori ynghylch gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru – dylai Rebecca anfon dolen yr ymgynghoriad at Alyson, fel y gellir ei dosbarthu i'r aelodau.</p> <p>Wythnos Gofal – dylai'r aelodau anfon straeon 'newyddion da' at Rebecca, fel rhan o'r Wythnos Gofal.</p> <p>Argymhelliad 11 – dylai Rebecca a Karen gytuno ar y derminoleg – sicrhau bod yr holl staff gofal yn cael eu cofrestru – yn cynnwys cynorthwywyr personol</p> <p>Argymhelliad 17a – Dylai Edwin anfon gwybodaeth at Dermot am Addysg/Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol.</p> <p>Adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau – Yn amodol ar gytundeb y Gweinidog, dylid ystyried diweddarau adroddiad Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau yn briodol, gan ystyried: cynigion gan Cymuned Ymarfer Ymddygiad Heriol, y farn a fynegwyd gan yr aelodau; ac argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad o leoliadau arbenigol.</p>	<p>Rebecca/ Alyson</p> <p>Aelodau</p> <p>Dylai Rebecca anfon y derminoleg y cytunir arni at Alyson, i'w hanfon yn ei blaen at Edwin</p> <p>Edwin</p> <p>Karen/Andrew</p>

5.	<p>Y diweddaraf am gamau gweithredu iechyd yn Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau.</p>	
	<p>5.1 Gwasanaethau Arbenigol – Dywedodd Karen fod adolygiad cynhwysfawr o'r holl leoliadau arbenigol ar gyfer plant ac oedolion wedi ei gynnal yng Nghymru a Lloegr gan yr Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol. Roedd yr adroddiad am blant wedi ei gyhoeddi ac mae cydweithwyr polisi iechyd meddwl yn Llywodraeth Cymru wrthi'n ei ystyried (nid oes yr un o'r plant sydd mewn lleoliadau wedi cael diagnosis o anabledd dysgu).</p> <p>Roedd adroddiad yr adolygiad o leoliadau oedolion wedi dod i ben a disgwylir iddo fod yn barod ym mis Hydref. Ar ôl cael yr adroddiad terfynol, bydd cyngor yn cael ei roi i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Y farn gychwynnol yw bod angen cynllun gweithredu ar gyfer 'pethau i'w gwneud' a 'pethau i'w hosgoi'; cyfres o gamau gweithredu; dolenni ar gyfer canllawiau, a'i gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio cynllun gweithredu. Dywedodd Karen y gallai'r cynllun gweithredu hwn ymgorffori cynigion gan y Gymuned Ymarfer a ardystir bellach gan GCGAD.</p> <p>5.2 Archwiliadau Iechyd Blynyddol – Dywedodd Karen wrth y grŵp na fu modd cytuno ar y contract gyda Phwyllgor Meddygon Teulu Cymru – y corff trafod ffurfiol sy'n gyfrifol am drafod contractau meddygon teulu gyda byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru. Yn ôl Karen, roedd yna nifer o resymau cymhleth am hyn, ond roedd gwaith ar y gweill i gytuno ar fanyleb ddiwygiedig ar ffurf Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar gyfer Ebrill 2020 ac roedd tîm 1000 o Fywydau AD yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael cais gan y Prif Swyddog Nyrsio i gwmpasu modelau cyflawni amgen ar sail arferion da ar draws y DU. Cadarnhaodd Sharon fod y gwaith hwn ar droed.</p> <p>Mynegodd yr aelodau siomedigaeth ynglŷn â'r newydd hwn. Cadarnhaodd Karen fod y targed o roi archwiliad iechyd blynyddol i 75% o bobl ag anabledd dysgu, yn y boblogaeth yn gyffredinol, yn dal i fod yn flaenoriaeth a'i fod yn dal i fod yn rhan o Fframwaith Canlyniadau'r GIG ar gyfer 2019-20. Roedd cynyddu nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n cofrestru gyda meddyg teulu hefyd yn flaenoriaeth. Penderfynodd yr aelodau y byddent yn ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi</p>	

	<p>pryder ynghylch y ffaith na fu modd cytuno ar gontract ar gyfer 2019-20, gan ei annog i sicrhau y bydd hyn yn cael ei gyflawni ar gyfer 2020-21.</p> <p>Dywedodd Lynne Evans fod Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf wedi ystyried y rhwystrau i iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu yng Nghwm Taf.</p>	
Camau Gweithredu	<p>Gwasanaethau Arbenigol – Dylai aelodau GCGAD weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu.</p> <p>Archwiliadau Iechyd Blynyddol – Cynigiodd Zoe ddrafftio llythyr ar ran y grŵp i'w anfon at y Gweinidog. Dylid anfon y llythyr drafft at Natalie i'w ddsbarthu i'r aelodau, fel y gallant gyflwyno sylwadau arno cyn iddo gael ei anfon.</p> <p>Dylai Lynne Evans rannu gydag aelodau GCGAD gasgliadau Cwm Taf ynglŷn â'r rhwystrau i iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.</p>	<p>Edwin, Emma, Joe, Kate, Oliver a Zoe.</p> <p>Zoe, Natalie</p> <p>Lynne Evans/Dawn Price</p>
6.	Y diweddaraf am benodi Cadeirydd newydd ar gyfer GCGAD.	
	<p>6.1 Dywedodd Karen fod y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog wedi gofyn iddi gysylltu â Humie Webbe ynglŷn â chyd-gadeirio GCGAD, a bod Humie wedi derbyn. Bydd yn cyd-gadeirio ei chyfarfod cyntaf gyda Sophie ym mis Rhagfyr.</p> <p>Cytunodd yr aelodau ag awgrym Humie y dylid cynnal cyfarfod anffurfiol gydag aelodau GCGAD cyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr.</p>	
Camau Gweithredu	<p>Cadeirydd Newydd</p> <p>Anfon proffil Humie at yr aelodau, er gwybodaeth.</p> <p>Trefnu cinio anffurfiol rhwng Humie ac aelodau GCGAD yn ystod mis Tachwedd.</p> <p>Diweddariad – mae'r cinio wedi ei drefnu ar gyfer dydd Gwener 8 Tachwedd 12.00-2.00pm yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.</p>	<p>Alyson</p> <p>Alyson</p>
7.	Sut i ddefnyddio'r amser gyda'r Dirprwy Weinidog yng nghyfarfod mis Rhagfyr GCGAD	

	<p>7.1 Dywedodd Sophie ei bod wedi siarad gyda Karen a'u bod wedi penderfynu mai'r ffordd orau o ddefnyddio'r amser gyda'r Gweinidog fyddai codi materion allweddol sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu. Roedd tri o faterion allweddol wedi eu nodi, pe bai'r aelodau'n cytuno:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Na ddylai neb orfod mynd y tu allan i Gymru i gael cymorth ○ Trafnidiaeth ○ Bod angen i iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n well gyda'i gilydd. <p>Cytunodd yr aelodau â'r tri awgrym allweddol hyn, ac awgrymwyd un mater arall yng ngoleuni trafodaeth gynharach:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Yr angen i gwrdd â chostau cynyddol gofal cymdeithasol yng Nghymru. 	
Camau Gweithredu	<p>Amser gyda'r Dirprwy Weinidog</p> <p>Er mwyn hwyluso'r drafodaeth, gofynnwyd i'r aelodau e-bostio is-bwyntiau at Alyson ar gyfer pob un o'r 4 mater dan sylw.</p>	Aelodau
8	Unrhyw Fater Arall	

	<p>8.1 Ystafelloedd cyfarfod – Dywedodd Karen nad oedd yr ystafell gyfarfod bresennol yn addas, gan nad oedd cyfleusterau TG yno. Roedd yr un ystafell gyfarfod wedi ei neilltuo ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr. Yn 2020, bydd yr holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd a lleoliadau â TG. Gofynnodd i'r aelodau awgrymu manau addas y gellid eu defnyddio i gynnal y cyfarfodydd hyn, naill ai'n rhad iawn neu am ddim. Ni chafwyd awgrymiadau'n syth oherwydd maint y cyfarfod.</p> <p>Ymhellach, gofynnodd Karen i'r aelodau a ddylid ystyried lleoliadau y tu allan i Gaerdydd. Nid oedd llawer o frwdfrydedd ymhlith yr aelodau ynglŷn â hyn, gan eu bod yn teimlo bod Caerdydd yn agos i'r rhan fwyaf o randdeiliaid a chan mai yno y mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gorau i'w cael.</p> <p>8.2 Contractau Eirioli Annibynnol – Siaradodd Joe am gyflwyno Contractau Eirioli Proffesiynol Annibynnol lle rhoddir dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyllido eiriolaeth un-i-un yn unig. Roedd Pobl yn Gyntaf Cymru yn pryderu y gallai awdurdodau lleol leihau cyllid ar gyfer hunaneirioli ar gyfer pobl ag anabledd dysgu – gan ddwyn eu llais a rhoi llai o ddewis a rheolaeth iddynt dros eu bywydau.</p> <p>8.3 Dywedodd Karen ei bod wedi siarad am bwysigrwydd hunaneirioli mewn cyfarfod yn ddiweddar, a bod ei safbwyntiau wedi cael cefnogaeth gan Albert Heaney, Cyfarwyddwr, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru. Yn ôl Karen, mae Albert yn bwriadu siarad am hunaneirioli wrth Gyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol.</p>	
--	--	--

Camau Gweithredu	<p>Ystafelloedd cyfarfod</p> <p>Rhoi gwybod i Alyson am unrhyw ystafelloedd cyfarfod sydd â chyfleusterau TG y tu allan i Lywodraeth Cymru lle gellir cynnal cyfarfodydd GCGAD yn y dyfodol.</p> <p>Diweddariad – mae ystafelloedd addas â chyfleusterau TG wedi eu canfod bellach ar gyfer cyfarfodydd 2020, a hynny yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd).</p> <p>Contractau Eirioli Annibynnol</p> <p>Mae Joe am gyfarfod â Ruth Akers, Polisi Diogelu ac Eirioli, Llywodraeth Cymru i drafod ei bryderon.</p> <p>Dyweddodd Kate, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan a Julian, Cymdeithas Syndrom Down y byddent yn fodlon rhoi llythyrau cefnogaeth i Joe pe bai'n dymuno hynny.</p> <p>Yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr dylai Karen roi'r diweddaraif i'r aelodau ynghylch trafodaethau Albert gyda Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â hunaneirioli.</p>	<p>Aelodau</p> <p>Joe</p> <p>Joe, Kate, Julian</p> <p>Karen</p>
	<p>Dyddiad ac amser cyfarfodydd y dyfodol:</p> <p><u>2019</u></p> <p>Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019 Diweddariad ynghylch yr amseroedd – Gan y bydd y Dirprwy Weinidog yn dod i'r cyfarfod ym mis Rhagfyr, bydd y cyfarfod hwn yn dechrau am 9.45am.</p> <p><u>2020</u></p> <p>Dydd Mercher 25 Mawrth</p> <p>Dydd Mawrth 9 Mehefin</p> <p>Dydd Mawrth 8 Medi</p> <p>Dydd Mawrth 8 Rhagfyr</p> <p>Bydd yr holl gyfarfodydd yn ystod 2020 yn cael eu cynnal yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, gan ddechrau am 11.00am a gorffen am 3.00pm.</p>	

